**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau’r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Cadw ac fe’i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau’r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

**Jack Sargeant AS**
**Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol**
**29 Tachwedd 2024**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy’n cywiro camgymeriadau, neu’n egluro’r ddarpariaeth a wnaed, yn:

- Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024 (O.S. 2024/924 (Cy.151))
- Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/929 (Cy. 154))
- Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024 (O.S. 2024/930 (Cy. 155))

(“y prif reoliadau”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Mae’r Rheoliadau hyn yn ymateb i faterion y mae’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad wedi adrodd arnynt ym mhwyntiau 1, 3, 6, 8 a 9 o SL(6)517, pwynt 1 o SL(6)520 a phwyntiau 4, 5 a 6 o SL(6)516.

2.2 Mae’r Rheoliadau hyn yn bodloni’r meini prawf ar gyfer y Weithdrefn Cyhoeddiad am Ddim ac felly fe’u cyhoeddir yn rhad ac am ddim i unrhyw un sydd wedi prynu copi caled o fersiwn Argraffydd y Brenin o’r prif reoliadau.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn yn dibynnu ar y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adrannau 26(5)(b), 91(1) a (2), 92(2), 96, 97, 209(2) a 211(3)(a) a (4) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023"). Maent yn bwerau i wneud darpariaeth mewn perthynas â chytundebau partneriaethau henebion cofrestredig, hysbysiad o geisiadau i berchnogion adeiladau rhestredig, rhoi neu wrthod cydsyniad adeilad rhestredig, rhoi neu wrthod cydsyniad adeilad rhestredig yn ddarostyngedig i amodau ac i wneud darpariaeth sy'n ddeilliadol, yn atodol i, neu’n ganlyniadol i’r ddarpariaeth ynghylch hysbysiadau ac ar unrhyw ddarpariaeth o Ddeddf 2023.

3.2 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn egluro ac yn gwneud mân ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddryswch a sicrhau bod y testunau Cymraeg a Saesneg yn union yr un fath.

## 5. Ymgynghoriad

5.1 Nid oes unrhyw ymgynghori wedi'i gynnal ar y Rheoliadau hyn, gan eu bod yn gwneud mân ddiwygiadau i gywiro neu egluro is-ddeddfwriaeth ac nid ydynt yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan eu bod yn cywiro neu'n egluro rheoliadau sy'n bodoli. Nid yw'r rheoliadau'n cyflawni newid polisi. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.